# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Seilwaith mewn perthynas â rheoli Rhywogaethau Goresgynnol Estron

Medi 2014

1.1 Buom yn ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Seilwaith yn ein cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2014, a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad gyda'r bwriad o gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 23 Medi 2014.

6.4 Er bod y dystiolaeth sydd ar gael inni'n ymddangos fel pe bai'n cefnogi'r dull gweithredu sy'n cael ei awgrymu yn y Bil Seilwaith ac, o ganlyniad, mae'n ymddangos fel pe bai'n awgrymu cefnogaeth, yn ei dro, i'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, nid ydym wedi gwneud digon o waith i ddod i'n casgliadau ein hun gan na chawsom ddigon o amser i gasglu amrediad llawn o dystiolaeth.

1.3 Wrth gyflwyno adroddiad, rydym wedi ceisio ychwanegu rhywfaint o werth i ystyriaeth y Cynulliad o'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol drwy ddarparu gwybodaeth gefndirol i Aelodau'r Cynulliad.

1.4 Yn ychwanegol at hynny, fe wnaethom ofyn am eglurhad ar rai pwyntiau a godwyd gan NFU Cymru mewn gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon. Mae ein llythyr at y Gweinidog ac ymateb y Gweinidog hefyd yn cael eu darparu fel atodiadau i'r adroddiad hwn.

1.5 Ynghlwm â'r adroddiad eglurhaol hwn mae pum atodiad sy'n rhoi rhagor o wybodaeth. Sef:

- **Atodiad A** – Papur gan Glerc y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd;
- **Atodiad B** – Sylwadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan Gyfoeth Naturiol Cymru;
- **Atodiad C** – Sylwadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan NFU Cymru;
- **Atodiad D** – Llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf, 2014 gan Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon yn gofyn am ymateb i bwyntiau a godwyd gan NFU Cymru; ac
- **Atodiad E** – Llythyr dyddiedig 12 Awst 2014 gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan NFU Cymru

1.6 Hyderwn fod y wybodaeth ychwanegol hon o gymorth i Aelodau'r Cynulliad ddod i benderfyniad ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Diwylliant a Chwaraeon yn gofyn am ymateb i bwyntiau a godwyd gan NFU Cymru; ac

- **Atodiad E** – Llythyr dyddiedig 12 Awst 2014 gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan NFU Cymru

1.6 Hyderwn fod y wybodaeth ychwanegol hon o gymorth i Aelodau'r Cynulliad ddod i benderfyniad ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

## Atodiad A – Papur gan Glerc y Pwyllgor Amgylchedd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Bil Seilwaith

**Dyddiad:** 17 Gorffennaf 2014
**Awdur:** Alun Davidson – Clerc
**Cyswllt:** alun.davidson@cymru.gov.uk
029 2089 **8639**

### 1. Diben

1.1 Cynorthwyo'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wrth ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau ym Mil Seilwaith y DU sydd â'r bwriad o ddiwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

1.2 Mae linc i'r holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn y papur hwn ar gael yn yr adran olaf : 'Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol'.

### 2. Cefndir

2.1 Mae Bil Seilwaith Llywodraeth y DU ("y Bil") yn cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd.

2.2 Mae rhai adrannau o'r Bil hwn yn ceisio deddfu mewn meysydd cymhwysedd sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ofynnol, yn ôl confensiwn, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn ystyried cydsynio â hyn. Mae'r Cynulliad yn gwneud hyn drwy ystyried cynnig cydsyniad deddfwriaethol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

2.3 Mae rhagor o wybodaeth am gynigion cydsyniad deddfwriaethol i'w chael yn hysbysiad hwylus y Gwasanaeth Ymchwil *Cyfres y Cyfansoddiad: 6 Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol*.

2.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ('y memorandwm') ar 18 Mehefin 2014 sy'n esbonio hyn yn fwy manwl.

2.5 Yn bennaf, mae'r memorandwm yn nodi bod y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais i gael cydsyniad ar eu cyfer wedi'u cynnwys o fewn Rhan 2, Cymal 16.

2.6 Mae Rhan 2, Cymal 16 yn mewnosod is-adran newydd 14(4A) i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981") sy'n darparu ar gyfer mesurau sy'n ymwneud â chytundebau rheoli rhywogaethau a gorchmynion rheoli rhywogaethau sydd i'w cynnwys mewn Atodlen 9A newydd i Ddeddf 1981.

2.7 Mae'r Atodlen 9A newydd yn bum rhan ac yn 26 o adrannau.

**3. Bwriad polisi**

3.1 Mae'r memorandwm yn nodi'r bwriad polisi'n fwy manwl. Ceir crynodeb byr yn y blwch isod.

| **Crynodeb o ddiben y polisi**<br><br>Bydd Cymal 16, os caiff ei wneud yn gyfraith, yn caniatáu i rai awdurdodau amgylcheddol gymryd camau i ddileu neu reoli rhywogaethau estron goresgynnol ("RhEG") sy'n peri bygythiadau difrifol i fioamrywiaeth, buddiannau amgylcheddol eraill neu fuddiannau cymdeithasol neu economaidd.<br><br>Mae hyn yn cynnwys pwerau mynediad mewn amgylchiadau diffiniedig. |
|---|

**4. Barn rhanddeiliaid**

*Adroddiad Comisiwn y Gyfraith*

4.1 Mae'r darpariaethau yn y Bil Seilwaith yn seiliedig ar adroddiad Comisiwn y Gyfraith *Wildlife Law: Control of Invasive Species*, a argraffwyd ar 10 Chwefror 2014.

4.2 Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith fod deddfwriaeth o'r math a nodir yn y Bil Seilwaith yn cael ei chyflwyno yng Nghymru a Lloegr. Mae deddfwriaeth debyg eisoes ar waith yn yr Alban Wildlife and Natural Environment (Scotland) Act 2011 ac argymhelliad y ddeddfwriaeth hon yn fras yw dilyn model yr Alban.

4.3 Roedd yr argymhellion a wnaeth Comisiwn y Gyfraith yn seiliedig ar ymgynghori. Nid yw'r adroddiad yn rhestru'r holl ymatebwyr i'r

ymgynghoriad, ond mae'n sôn am ddau sefydliad o Gymru wrth grynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Ymatebodd NFU Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) i ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith a chodi pwyntiau tebyg i'r rhai a fynegwyd i'r Pwyllgor (gweler *Barn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol* isod).

4.4 Mae paragraff 2.55 ar dudalen 23 o adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn datgan:

> In general, the introduction of the Scottish system for species control orders in England and Wales was strongly supported in consultation. However, there was a worry that species control orders could be used too widely or impose unnecessary burdens on those subject to them. On the basis of consultation, we consider that the creation of a species control regime for invasive non-native species would provide a highly desirable addition to the law of England and Wales. Such a process would facilitate the effective control of invasive non-native species, and thereby accord with domestic preferences and international obligations.

*Ymchwiliad y Pwyllgor:*

4.5 Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i Rywogaethau Estron Goresgynnol, clywodd y Pwyllgor ddadleuon o blaid ac yn erbyn pwerau mynediad at ddibenion dileu neu reoli rhywogaethau estron goresgynnol. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o blaid rhoi pwerau i awdurdodau gorfodi.

*Barn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol*

4.6 I gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y memorandwm, mae Clerc y Pwyllgor wedi gofyn am farn yr holl randdeiliaid a gyfrannodd at ymchwiliad y Pwyllgor yn 2013 i Rywogaethau Goresgynnol Estron.

4.7 Ymatebodd NFU Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ymatebion byr oedd y rhain. Mae'r ymatebion hyn wedi'i cynnwys mewn atodlen i'r papur hwn.

4.8 **Ar y cyfan, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r** cynigion, ond yn cwestiynu ymarferoldeb cymhwyso'r pwerau hyn yng Nghymru oherwydd cyfyngiadau ariannol.

4.9 Mynegodd **NFU Cymru bryderon** mewn perthynas â'r angen i ddiogelu'n well berchnogion a deiliaid a all fod â rhywogaethau goresgynnol ar eu tir heb fod unrhyw fai arnynt hwy eu hunain, rhag y costau posibl o reoli'r rhywogaethau.

4.10 Mae'r ddau sefydliad yn credu y dylid mynd i'r afael â'r mater hwn ar sail Cymru a Lloegr.

## 5. Y broses i'w hystyried

5.1 Trosglwyddodd y Pwyllgor Busnes y memorandwm hwn i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w ystyried. Wrth wneud hynny, mae dyletswydd ar y Pwyllgor Busnes i bennu amserlen ar gyfer ystyried y memorandwm.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gyflwyno adroddiad ar y memorandwm erbyn **18 Medi 2014**.

5.3 Bydd y Cynulliad yn ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar **23 Medi 2014**.

## 6. Casgliadau

6.1 Mae'r mater hwn wedi bod yn destun ymgynghoriad sylweddol gan Gomisiwn y Gyfraith, ac mae rhanddeiliaid wedi cael cyfle i gyfrannu.

6.2 Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ei ymchwiliad ei hun. O ran y mater o bwerau mynediad, mynegodd y rhan fwyaf o randdeiliaid gefnogaeth dros bwerau o'r fath, er bod rhai wedi mynegi pryderon ynghylch y lefel o ddiogelu o dan amgylchiadau penodol.

6.3 Mae consensws y dylid ymdrin â'r mater hwn ar sail Cymru a Lloegr.

6.4 Er bod y dystiolaeth yn ymddangos fel pe bai'n cefnogi'r dull gweithredu a gaiff ei awgrymu yn y Bil Seilwaith ac, o ganlyniad, yn ymddangos fel pe bai'n awgrymu cefnogaeth, yn ei dro, i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, nid yw'r Pwyllgor wedi gwneud digon o waith i lunio ei gasgliadau ei hun ac nid oes ganddo ddigon o amser i wneud hynny.

6.5 Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried ychwanegu rhywfaint o werth i ystyriaeth y Cynulliad o'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn drwy roi adroddiad yn nodi cynnwys y papur hwn, a cheisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y pwyntiau a godwyd gan NFU Cymru (ac ar unrhyw bwyntiau eraill y gallai fod am eu codi).

## Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol

- Mae copi o'r **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=256767&ds=7/2014

- Mae'r **Bil Seilwaith** ar gael ar wefan Senedd y DU: http://services.parliament.uk/bills/2014-15/infrastructure.html

- Mae **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1981** ar gael ar wefan legislation.gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/69

- Mae adroddiad Comisiwn y Gyfraith, ***Wildlife Law: Control of Invasive Non-native Species*** ac asesiad effaith ar gael yn http://lawcommission.justice.gov.uk/publications/2612.htm

- Mae'r **Wildlife and Natural Environment (Scotland) Act 2011** ar gael ar wefan legislation.gov.uk: http://www.legislation.gov.uk/asp/2011/6/contents/enacted

- Mae manylion ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar **rywogaethau goresgynnol estron** ar gael yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6591

- Mae **Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil** *Cyfres y Cyfansoddiad: 6 – Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol* ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/qg07-0006.pdf

- Gellir gweld y **Rheolau Sefydlog** yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-assembly-guidance.htm (Mae Rheol Sefydlog 29 yn pennu'r broses ar gyfer ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol).

- Gellir gweld **cofnod o ystyriaeth y Cynulliad o'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn** http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10297&Opt=0&AIID=17700

# Atodiad A – Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

**Natural Resources Wales' Views on:**
**Infrastructure Bill - Part 2: Provisions for the Control of Invasive Non-Native Species**

Natural Resources Wales welcomes the opportunity to comment on the above Provisions as set out in the Legislative Consent Memorandum provided by Alun Davies AM.

We make our comments on these Provisions within the context of the Invasive Non-Native Species (INNS) work we conduct in partnership with Welsh Government, local authorities, businesses, Third Sector groups and the many others who all have roles in helping to manage and reduce the risks posed by INNS.

We agree these Provisions will help address one of the 'gaps' for more effectively managing INNS risks and their impacts on people, the economy and the environment.

While we are broadly supportive of the Provisions, it is important to note these will need to be adequately funded and viewed as part of a suite of measures and mechanisms that need further development to support more effective INNS management in Wales.

To establish INNS control agreements or orders, sufficient funds will be needed from Welsh Government for the associated work – either as a payment to the owner of premises containing the INNS in question or for Natural Resources Wales to conduct any such work including staff resources.

We therefore agree with the view in the Memorandum that these powers would be for exceptional circumstances on a case-by-case basis and primarily used to support national eradication programmes such as the DEFRA funded programme for eradicating Top Mouth Gudgeon in England.

Section 18 in the Legislative Consent Memorandum acknowledges the lack of dedicated [or readily available] funding for INNS within the Welsh Government. Access to readily available funding will be essential to enable either the Welsh Government or Natural Resources Wales to implement these Provisions.

We also note that Section 8 in the Memorandum emphasises the need to "...consider the proportionality of a proposed agreement." We support this in terms of assessing the potential costs, benefits and risks that will be involved in tackling particular INNS. These aspects will need to be a key component of the Welsh Code of Practice guidance that will be developed under the Provisions.

It will also be important for the Welsh Code of Practice to be developed in close liaison with those developing the equivalent Code of Practice for England to ensure that as far as is possible the Provisions can be delivered consistently across England and Wales.

We also agree that these Provisions will put Wales in a better position in relation to meeting key obligations that are expected to stem from the proposed European Union Regulation on Invasive Alien Species ( ie INNS ).

**Nick Bialynicki-Birula**
**Natural Resources Wales**
**30th June 14**

## Atodiad B –NFU Cymru

**Initial comments on the Infrastructure Bill LCM**

1. Need clarification on exceptional circumstances definition in the powers section.
2. Needs better safeguarding for owners and occupiers who may have invasive species on their land through no fault of their own against costs of control falling on them.
3. Cannot really understand in Wales why the environmental authority needs to be both Welsh ministers and NRW. Surely it should be the Welsh ministers who are in a position in theory at least to make a more balanced judgement on economic grounds in particular.
4. Agree that it should be an UK approach.
5. First Tier Tribunal is not operational in Wales. WG insist (unfortunately) on using the Planning Inspectorate for appeals!
6. Interesting that Highway Agency will be replaced by strategic highway companies in England but not it seems in Wales?
7. Not clear from this if the Bill will actually list the species covered.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Environment and Sustainability Committee

John Griffiths AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol,
Diwylliant a Chwaraeon
Llywodraeth Cymru

21 Gorffennaf 2014

Annwyl John

**Ymateb i Sylwadau Cychwynnol NFU Cymru ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Seilwaith**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith yn ystod ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2014. Mae'r sylwadau a ganlyn gan NFU Cymru wedi dod i law mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith:

1. Mae angen eglurder ynghylch diffiniad amgylchiadau eithriadol yn yr adran ar bwerau.

2. Mae angen camau diogelu gwell ar gyfer perchnogion a meddianwyr a allai gael rhywogaethau ymledol ar eu tir heb fod unrhyw fai arnynt, a hynny i'w diogelu yn erbyn costau rheoli beichus.

3. Mae angen eglurder ynghylch pam y rhennir awdurdod amgylcheddol yng Nghymru rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion Cymru. Oni ddylai Gweinidogion Cymru fod mewn sefyllfa, mewn egwyddor o leiaf, i wneud penderfyniad mwy cytbwys ar sail rhesymau economaidd yn benodol?

4. Nid yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn weithredol yng Nghymru. Mae'n anffodus bod Llywodraeth Cymru yn mynnu defnyddio'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer apeliadau.

Bae Caerdydd | Cardiff Bay
Caerdydd | Cardiff
CF99 1NA
Ffôn | Tel: 029 2089 8639
E-bost | Email: alun.davidson@wales.gov.uk


5. Mae angen eglurder ynghylch pam y bydd yr Asiantaeth Priffyrdd yn cael ei disodli gan gwmnïau priffyrdd strategol yn Lloegr ond nid, fel yr ymddengys, yng Nghymru.

6. Mae angen eglurder ynghylch a fydd y rhywogaethau a gwmpesir yn cael eu rhestru mewn deddfwriaeth.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn ystyried y pwyntiau a godwyd gan NFU Cymru ac yn ymateb i'r sylwadau hyn erbyn dydd Gwener 29 Awst, fel y gall y Pwyllgor osod ei adroddiad erbyn 18 Medi.

Diolch am ystyried y mater hwn ac edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



**Alun Ffred Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**John Griffiths AC /AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon**
**Minister for Natural Resources, Culture and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
Alun Ffred Jones AM
Chair of the Environment and Sustainability Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

19 Awst 2014

Dear Alun Ffred,

**Ymateb i Sylwadau Cychwynnol NFU Cymru ar Gynnig a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) y Bil Seilwaith**

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor am ystyried y mater pwysig hwn yn eich cyfarfod ar 17 Gorffennaf. Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf 2014 a oedd yn cynnwys sylwadau gan NFU Cymru ynghylch LCM y Bil Seilwaith ("y Bil"). Byddaf yn ymateb i bob un o'u pwyntiau yn eu tro.

1. *Mae angen egluro'r diffiniad o amgylchiadau eithriadol yn yr adran ar bwerau.*

Nid oes cyfeiriad at "amgylchiadau eithriadol" yn y Bil. Defnyddiwyd yr ymadrodd hwnnw ym mharagraff 9 yr LCM i ddangos y bydd pwerau cytundeb/gorchymyn rheoli rhywogaethau yn cael eu defnyddio pan nad yw'n bosibl dod i gytundeb gwirfoddol. Mae'r Bil yn datgan bod yn rhaid i awdurdod amgylcheddol fod yn gwbl fodlon bod darpariaethau'r cytundeb yn gymesur â'r amcan i'w gyflawni cyn ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau gyda pherchennog.

Bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi Cod Ymarfer mewn perthynas â chytundebau/gorchmynion rheoli rhywogaethau. Bydd y Cod Ymarfer yn darparu cyngor ac arweiniad ynghylch sut bydd cytundeb/gorchymyn rheoli rhywogaethau yn cael ei weithredu, ac yn rhoi manylion ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gymesur. Rhaid i Weinidogion Cymru osod y Cod Ymarfer hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Bwriedir i'r pwerau hyn gael eu defnyddio'n bennaf i gefnogi rhaglenni dileu cenedlaethol ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol. Nid oes bwriad eu defnyddio'n rheolaidd ar gyfer rhywogaethau eang eu gwasgariad, fel clymog Japan, gan y byddai hyn yn cael ei ystyried yn amhriodol ac yn anghymesur. Y bwriad yw defnyddio gorchmynion lle na ellir cytuno ar ddulliau gweithredu gwirfoddol a bod bygythiad clir a sylweddol o beidio â gweithredu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

2. *Mae angen i berchnogion a phreswylwyr sydd â rhywogaethau goresgynnol ar eu tir, os nad oes bai arnynt, gael eu diogelu'n well rhag gorfod ysgwyddo costau'r gwaith rheoli.*

Bydd y Cod Ymarfer hefyd yn cynnwys cyngor a chanllawiau ynghylch talu costau camau rheoli, ac yn arbennig yr hyn y dylid ei gynnwys fel darpariaeth ynghylch taliadau ac adfer costau. Y bwriad mewn sefyllfa lle mae'r tirfeddiannwr yn gyfrifol am ollwng rhywogaeth oresgynnol yw y disgwylir i'r tirfeddiannwr fod yn atebol am y costau, yn unol â'r egwyddor y llygrwr sy'n talu.

3. *Mae angen egluro pam fod angen i'r awdurdod amgylcheddol yng Nghymru gynnwys Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Onid Gweinidogion Cymru sydd yn y lle gorau, mewn egwyddor o leiaf, i wneud penderfyniadau cytbwys ar sail economaidd yn arbennig?*

Gall rhywogaethau estron goresgynnol gael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth a gwasanaethau'r ecosystem. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r prif gorff gweithredol sy'n cyflawni polisi bywyd gwyllt a'r amgylchedd yng Nghymru. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u seilio ar adroddiad Comisiwn y Gyfraith "Wildlife Law, Control of Invasive Species", a gyhoeddwyd ar 10 Chwefror 2014: http://lawcommission.justice.gov.uk/publications/2612.htm. Edrychodd Comisiwn y Gyfraith i weld a ddylai Gweinidogion Cymru gadw'r pwerau, ac fe ddaethpwyd i'r casgliad y byddai dull gweithredu o'r fath yn anghydnaws â gweddill y gyfraith bywyd gwyllt. Maent yn argymell y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gael y pwerau i wneud cytundebau rheoli rhywogaethau a gorchmynion rheoli rhywogaethau. Mae cyrff amgylcheddol cyfatebol wedi cael pwerau tebyg yn yr Alban, ac mae hyn yn yr arfaeth ar gyfer Lloegr.

4. *Nid yw Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf yn weithredol yng Nghymru. Mae'n anffodus bod Llywodraeth Cymru'n mynnu defnyddio'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer apelau.*

Gall perchennog eiddo sy'n destun gorchymyn rheoli rhywogaethau apelio yn erbyn gwneud/cyflwyno gorchymyn rheoli rhywogaethau drwy'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, sy'n weithredol yng Nghymru. Nid ydym yn cynnig defnyddio'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer apelau.

5. *Mae angen egluro pam y bydd yr Asiantaeth Priffyrdd yn cael ei disodli gan gwmnïau priffordd strategol yn Lloegr, ond nid yng Nghymru fe ymddengys.*

Nid yw'r LCM yn cynnwys darpariaethau priffyrdd. Mae'r ddarpariaeth yn y Bil Seilwaith sy'n berthnasol i'r priffyrdd yn ymwneud â newid statws yr Asiantaeth Priffyrdd. Corff ar gyfer Lloegr yn unig yw'r Asiantaeth Priffyrdd, felly mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i Loegr yn unig.

6. *Mae angen egluro a fydd y rhywogaethau perthnasol yn cael eu rhestru yn y ddeddfwriaeth.*

Mae'r Bil yn diffinio "goresgynnol" ac "estron". Er nad oes rhestr o "rywogaethau estron goresgynnol", mae rhywogaethau estron yn cynnwys y rhai a nodwyd yn Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (ond yn achos anifeiliaid nid yw'r rhestr honno'n gwbl gynhwysfawr). Bydd y Cod Ymarfer arfaethedig yn rhoi cyngor a chanllawiau ynghylch pryd y bydd yn briodol gwneud cytundeb neu orchymyn. Rydym yn rhagweld mai eu prif ddefnydd fydd rheoli rhywogaethau sydd newydd gyrraedd, sydd heb sefydlu'n eang yng Nghymru.

**John Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon
Minister for Natural Resources, Culture and Sport